**Rhif: WG34739**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Mynd i'r Afael ag Achosion o Osgoi Ardrethi Annomestig

Hydref 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-332-9

**Trosolwg**
Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru i'r ddogfen ymgynghori *Mynd i'r Afael ag Achosion o Osgoi Ardrethi Annomestig yng Nghymru*. Yn y ddogfen hon, roedd Llywodraeth Cymru yn gofyn am farn am fesurau a chynigion polisi i fynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi annomestig yng Nghymru.

**Cynulleidfa**
Perchnogion busnes, awdurdodau lleol Cymru, grwpiau buddiant, unigolion sydd â diddordeb mewn cymhwyso ardrethi annomestig i fusnesau Cymru.

**Rhagor o Wybodaeth**
Cangen Polisi Trethi Lleol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LGF1Consultations@gov.wales

**Copïau Ychwanegol**
Gallwch weld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
https://beta.llyw.cymru/mynd-ir-afael-ag-achosion-o-osgoi-ardrethi-annomestig-yng-nghymru

# Tabl Cynnwys

**Tabl Cynnwys** ........ **3**
**Cyflwyniad** ........ **4**
**Cynigion** ........ **4**
**Ymgysylltu** ........ **4**
**Trosolwg o'r Ymatebion** ........ **6**
Crynodeb o'r Ymatebion ........ 6
Rhwymedigaeth ar y rheini sy’n talu ardrethi i roi gwybod am newid mewn amgylchiadau ........ 6
Y rheini sy’n talu ardrethi a thrydydd partïon i ddarparu gwybodaeth ar gais awdurdod lleol ........ 7
Awdurdodau lleol yn cael mynediad i eiddo annomestig ac yn cael eu harchwilio ........ 8
Awdurdodau lleol i gyhoeddi rhestr o’r rheini sy’n talu ardrethi sy’n derbyn rhyddhadau ........ 9
Cynigion ar gyfer newid rhyddhadau ac ardrethi eiddo gwag ........ 11
Camddefnyddio rhyddhad elusennol gorfodol ........ 13
Rheolau Cyffredinol ar Atal Osgoi ........ 13
Mesurau anneddfwriaethol i leihau achosion o osgoi ........ 14
Y Gymraeg ........ 15
**Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr** ........ **16**

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o fynd i'r afael â mater osgoi talu ardrethi annomestig er mwyn gwella cydymffurfedd ac effeithlonrwydd ffynhonnell hanfodol o refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol. Bydd lleihau nifer yr achosion o osgoi yn sicrhau bod y baich ardrethi'n cael ei rannu'n decach ymysg y rhai sy'n talu'r ardrethi. Er mai lleiafrif bychan sy'n ceisio osgoi talu'r ardrethi, pan nad ydynt yn cyfrannu'n deg, gwasanaethau lleol, y gymuned ehangach ac eraill sy'n talu ardrethi sy'n dioddef. Mae sicrhau bod yr ardrethi cywir yn cael eu talu hefyd yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i'r rhai sy'n talu ardrethi drwy leihau'r risg o wynebu ôl-ddyledion mawr.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad *Mynd i'r Afael ag Achosion o Osgoi Ardrethi Annomestig yng Nghymru* ar wefan Llywodraeth Cymru ar 4 Ebrill 2018. Cafwyd cyfnod ymgynghori am 12 wythnos, a daeth hynny i ben ar 27 Mehefin 2018.

Diben yr ymgynghoriad oedd cael barn ystod eang o randdeiliaid am nifer o gynigion i leihau'r achosion o osgoi. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu wrth i ni fynd ati i ystyried newidiadau yn y dyfodol i ddeddfwriaeth, i bolisïau ac i arferion gweithio.

## Cynigion

Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar sut gellid gwella'r system ar gyfer mynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi annomestig yng Nghymru, ac yn rhestru nifer o gynigion i fynd i'r afael â phryderon busnesau a chyrff y trydydd sector a'r sector cyhoeddus. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd ymatebwyr i roi sylwadau ar bedwar cynnig a'r posibilrwydd o gyflwyno sawl egwyddor newydd, gan gynnwys Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi ac a ddylid diwygio neu ddileu elfennau penodol o ryddhad ac i ba raddau.

## Ymgysylltu

Anfonwyd yr ymgynghoriad yn uniongyrchol dros e-bost at randdeiliaid ac asiantaethau partner a oedd â diddordeb yn y materion a oedd yn codi, a chafodd ei gyhoeddi ar wefan a chyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd cyfanswm o 42 ymateb o sylwedd. Roedd ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur neu ar-lein, naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ceir crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn isod. Mae rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn Atodiad A.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi ateb pob cwestiwn. Roedd rhai wedi cynnwys sylwadau ychwanegol hefyd, ac mae'r rhain wedi'u dadansoddi a'u nodi. Cafodd pob ymatebwr ddewis cyflwyno eu hymatebion yn ddienw. Dewisodd pedwar

ymatebydd dderbyn y cynnig hwn, ac ni fyddant yn cael eu henwi unrhyw bryd yn y ddogfen hon.

Diolch i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad.

## Trosolwg o'r Ymatebion

### Crynodeb o'r Ymatebion

Nod y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Nid bwriad y ddogfen yw cofnodi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr, ond amlygu'r themâu allweddol.

### Rhwymedigaeth ar y rheini sy’n talu ardrethi i roi gwybod am newid mewn amgylchiadau

1. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn a ddylai’r rheini sy’n talu ardrethi orfod hysbysu’r awdurdod lleol os bydd eu hamgylchiadau’n newid yn y fath fodd a fyddai’n effeithio ar eu hatebolrwydd i dalu ardrethi annomestig. Roedd yr adran hon yn gofyn am farn ynghylch sut gallai rhwymedigaeth o’r fath weithio o ran cyfnodau hysbysu a’r cosbau priodol am fethu â chydymffurfio.

***Cwestiwn 1: Ydych chi’n cytuno y dylai’r rheini sy’n talu ardrethi orfod hysbysu’r awdurdod os bydd eu hamgylchiadau’n newid?***

2. Roedd 30 o’r 41 o ymatebwyr i’r cwestiwn hwn yn cytuno y dylai’r rheini sy’n talu ardrethi orfod rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau a fyddai’n effeithio ar eu hatebolrwydd dros ardrethi. Roedd dau o’r 30 a oedd yn cytuno yn credu mai dim ond pan fydd newid mewn meddiannaeth y dylid hysbysu.

3. Dywedodd un ymatebydd fod gan y Gofrestrfa Tir y math yma o wybodaeth yn barod, ac nad oedd angen ychwanegu lefel arall o weinyddiaeth. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith fod angen diffinio’n glir beth allai fod yn newid mewn amgylchiadau, er mwyn i’r rheini sy’n talu ardrethi allu deall unrhyw rwymedigaeth newydd.

***Cwestiwn 2: Ydych chi’n cytuno bod 21 diwrnod yn ddigon o amser i’r sawl sy’n talu ardrethi hysbysu’r awdurdod lleol am y newid yn ei amgylchiadau?***

4. Roedd 17 o’r 39 o ymatebwyr a oedd wedi mynegi barn yn cytuno bod y cyfnod o 21 diwrnod yn ddigon. Ond, roedd dau o’r rhain wedi awgrymu y dylid cael cyfnod hwy mewn achosion o brofedigaeth a cheisiadau am wybodaeth am berchnogaeth.

5. O blith y 22 a oedd yn anghytuno â’r cyfnod o 21 diwrnod, roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod yr amser a oedd yn cael ei ganiatáu yn rhy fyr. Roedd yr amseroedd eraill a oedd yn cael eu hawgrymu’n amrywio o’r cyfnod rhywfaint yn hwy o 28 diwrnod i gyfnod o chwe mis. Nid oedd consensws clir ynghylch faint yn fwy y dylai’r cyfnod hysbysu fod.

***Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno bod cosb sifil ar lefel 1 ar y raddfa safonol (£200 ar hyn o bryd) yn rhesymol ac yn gymesur mewn achosion lle mae'r sawl sy'n talu ardrethi wedi peidio â hysbysu, wedi cadw gwybodaeth yn ôl yn fwriadol neu wedi darparu gwybodaeth ffug yn fwriadol?***

6. Roedd 20 o'r 38 o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cytuno bod y gosb yn rhesymol. Awgrymodd un ymatebydd, er bod y gosb yn briodol, y dylid gallu apelio yn ei herbyn gerbron asesydd annibynnol, gyda'r ffioedd yn gymesur i'r gost.

7. Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylid cyflwyno'r gosb i'r meddiannydd presennol yn hytrach na'r sawl sy'n talu ardrethi. Dywedodd ymatebydd arall fod y gosb yn briodol, ond nad oedd yn debygol o gael unrhyw wir effaith ar y rhai sy'n talu ardrethi uwch.

8. Ymhlith y rhai hynny a oedd yn anghytuno a'r gosb, roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y swm yn rhy isel ac y dylai naill ai fod yn gyson â difrifoldeb y drosedd neu â swm y gwerth ardrethol.

**Y rheini sy'n talu ardrethi a thrydydd partïon i ddarparu gwybodaeth ar gais awdurdod lleol**

9. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch pŵer cyfreithiol newydd i awdurdodau lleol ofyn am wybodaeth gan y rheini sy'n talu ardrethi a thrydydd partïon, sy'n berthnasol i'w swyddogaethau bilio a chasglu.

***Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheini sy'n talu ardrethi a thrydydd partïon orfod darparu gwybodaeth ar gais awdurdod lleol, er mwyn dilysu atebolrwydd i dalu ardrethi?***

9. Roedd 30 o'r 38 o ymatebion a oedd wedi mynegi barn yn cytuno â'r cynigion. Dywedodd un ymatebydd y dylai'r rheini sy'n talu ardrethi orfod hysbysu'n awtomatig heb i awdurdodau lleol orfod gofyn yn benodol am hynny.

10. Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r egwyddor, ond yn teimlo y byddai'n anodd rhoi hynny ar waith yn effeithiol. Roedd un ymatebydd yn teimlo, er bod darparu'r wybodaeth yn briodol, dylid ystyried hynny'n arfer orau, yn hytrach na gorchymyn.

11. Hefyd, roedd ymatebydd arall yn cytuno mewn egwyddor, ond dywedodd y dylai'r hawl i awdurdodau ofyn am wybodaeth gan drydydd partïon fod wedi'i gyfyngu i'r achosion hynny lle mae'r awdurdod yn amau'n rhesymol bod achosion o osgoi.

***Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno bod 21 diwrnod yn ddigon o amser i'r rhai sy'n talu ardrethi a sefydliadau trydydd parti allu darparu gwybodaeth y mae awdurdod lleol wedi gofyn amdani am eiddo annomestig?***

12. At ei gilydd, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn unol â'r ymatebion i Gwestiwn 2. Roedd 17 o'r 38 ymateb yn teimlo bod y cyfnod o 21 diwrnod yn briodol. Awgrymodd un ymatebydd y dylai estyniad fod ar gael petai angen, ond dim ond i'r rheini sy'n talu ardrethi.

13. Roedd y rheini a oedd yn anghytuno, yn yr un modd ag ar gyfer Cwestiwn 2, yn credu bod yr amser a oedd yn cael ei ganiatáu yn rhy fyr, ac roeddent yn cynnig dewisiadau eraill, a oedd yn amrywio o 28 diwrnod i chwe mis.

***Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno bod cosb sifil ar lefel 1 ar y raddfa safonol (£200 ar hyn o bryd) yn rhesymol ac yn gymesur mewn achosion lle mae sefydliad wedi cadw gwybodaeth yn ôl yn fwriadol neu wedi darparu gwybodaeth ffug yn fwriadol?***

14. Roedd 25 o'r 40 ymatebydd yn cytuno bod y gosb sifil arfaethedig yn briodol. Er hynny, roedd un yn teimlo y gallai fod yn uwch ar gyfer cwmnïau cyfyngedig. Roedd un ymatebydd yn cytuno, ond ychwanegodd y dylai fod hawl i apelio.

15. Roedd y rhan fwyaf a oedd yn anghytuno â'r gosb yn gwneud hynny oherwydd nad oedd y swm a oedd yn ddyledus yn ddigon uchel.

**Awdurdodau lleol yn cael mynediad i eiddo annomestig ac yn cael eu harchwilio**

16. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn am bŵer cyfreithiol i awdurdodau lleol archwilio eiddo annomestig er mwyn gwirio gwybodaeth at ddibenion bilio, sut gallai hyn weithio yn ymarferol a pha fesurau diogelu sy'n ofynnol i warchod y rheini sy'n talu ardrethi.

***Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno bod y trefniadau diogelu sy'n cael eu cynnig (sef cael caniatâd gan dribiwnlys a rhoi 24 awr o rybudd) yn briodol i'r drefn i awdurdodau lleol archwilio eiddo annomestig?***

17. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r trefniadau diogelu arfaethedig ar y cyfan, gyda 29 o blaid y mesurau hyn. Ond, roedd rhywfaint o bryder nad oedd cael dim ond 24 awr o rybudd yn ddigon. Yn benodol, byddai'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn hoffi cael rhybudd o wythnos o leiaf.

18. Roedd un ymatebydd yn cytuno y dylid rhoi rhybudd, ond nid oedd yn gweld rheswm pam bod angen cael caniatâd tribiwnlys, na pham y byddai angen i'r rheini sy'n talu ardrethi gael trefniant diogelu o'r fath, gan mai dim ond er mwyn cael tystiolaeth fod eiddo'n wag neu'n cael ei ddefnyddio y byddai angen archwilio eiddo.

19. Awgrymodd un ymatebydd mai dim ond ar ôl methu â chael gwybodaeth drwy ddulliau eraill y byddai archwiliad gorfodol yn briodol. Roedd un ymatebydd yn argymell gofynion ychwanegol at ddibenion iechyd a diogelwch, ond nid oedd yn ymhelaethu ynghylch y mesurau hynny.

***Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno bod cosb sifil ar lefel 1 ar y raddfa safonol (£200 ar hyn o bryd) yn rhesymol ac yn gymesur mewn achosion lle mae person yn mynd ati'n fwriadol i atal archwiliad neu i achosi oedi mewn perthynas â'r archwiliad?***

20. Roedd 25 o'r 38 o ymatebion a gafwyd yn cytuno bod y gosb yn rhesymol.

21. Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r rhagosodiad o gosb, ond yn dweud bod ffi safonol o £200 yn ymddangos yn anghymesur wrth ystyried yr amrywiaeth o werthoedd ardrethol sydd ar gael. Awgrymodd y byddai cosb ar lefel 1 yn briodol ar gyfer gwerth ardrethol o £50,000 neu is, lefel 2 ar gyfer gwerth ardrethol uwch na £50,000 hyd at £250,000 a lefel 3 ar gyfer gwerth ardrethol uwch na £250,000.

22. Roedd un ymatebydd yn credu mai dim ond mewn amgylchiadau lle byddai wir yn bosibl cynnal archwiliad cyn pen 24 awr y byddai cosb yn briodol, a rhestrwyd enghreifftiau lle na fyddai hyn efallai'n bosibl. Er enghraifft, proses ddiwydiannol neu achosion cwarantin.

23. Fel yn y cwestiynau blaenorol am gosbau sifil, roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylai'r rhai sy'n talu ardrethi uwch gael cosbau uwch.

**Awdurdodau lleol i gyhoeddi rhestr o'r rheini sy'n talu ardrethi sy'n derbyn rhyddhadau**

24. Roedd yr adran hon yn gofyn am farn ynghylch a ddylai awdurdodau lleol gyhoeddi rhestr o'r rheini sy'n talu ardrethi sy'n derbyn rhyddhadau gorfodol a

dewisol er mwyn gwella tryloywder a beth fyddai'r materion diogelu data sy'n ymwneud â hyn.

***Cwestiwn 9: Beth yw manteision ac anfanteision cael awdurdodau lleol yn cyhoeddi rhestr o eiddo sy'n cael rhyddhad gorfodol a dewisol? A fyddai hyn yn gwella lefel y tryloywder a chydymffurfio?***

***Cwestiwn 10: Pa fathau o wybodaeth y dylid, neu na ddylid, eu cyhoeddi?***

***Cwestiwn 11: Beth yw'r materion diogelu data, a sut gellid mynd i'r afael â'r rhain?***

25. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn teimlo y gallai cyhoeddi rhestr fod o fudd er mwyn gwella tryloywder. Ond roedd pa ddata y dylid ei gynnwys mewn unrhyw restr a fyddai'n cael ei chyhoeddi yn fater cynhennus.

26. Roedd 22 o'r 35 ymatebydd yn cytuno'n fras â'r rhagosodiad o gael rhestr o eiddo. Cyfeiriodd sawl un at Adolygiad Barclay, gan ddweud eu bod yn cymeradwyo sicrhau bod y cynnig yn unol ag argymhellion yr adolygiad.

27. Ond, roedd yn cael ei gydnabod y gallai'r cynnig hwn arwain at ragor o bwysau gweinyddol ar awdurdodau lleol, yn ogystal â thynnu sylw o bosibl at anghysonderau o ran cymhwyso.

28. Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cytuno y gellid cyhoeddi manylion eiddo, gan gynnwys gwerth ardrethol a rhywfaint o wybodaeth am y rhyddhad, ond na ddylid cynnwys gwybodaeth am unigolion yn yr eiddo na gwybodaeth bersonol ariannol a threth yr unigolion hynny.

29. Roedd barn yr ymatebwyr ynghylch a ddylid cynnwys manylion penodol am y rhyddhad sydd ar gael ac sy'n cael ei rhoi wedi'i rhannu'n weddol gyfartal. Dywedodd un ymatebydd mai dim ond drwy ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth y dylid cynnwys unrhyw wybodaeth.

30. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylai unrhyw restrau gydymffurfio â GDPR. Roedd un ymatebydd yn dadlau o blaid cynnwys awdurdodau lleol o dan yr un rhwymedigaethau cyfreithiol â CThEM o ran gwybodaeth am dreth unigolion.

31. Roedd sawl awdurdod lleol yn cynghori y dylid gofyn i breswylwyr roi caniatâd ysgrifenedig drwy gyflwyno cais i ganiatáu cyhoeddi eu data.

32. Barn y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw oedd, gan fod cwmnïau neu elusennau'n gyhoeddus yn barod, na fyddai diogelu data yn broblem fawr yn hyn o beth. Ychwanegodd y byddai'r ddarpariaeth optio allan yn mynd yn groes i fwriad y ddeddfwriaeth.

**Cynigion ar gyfer newid rhyddhadau ac ardrethi eiddo gwag**

33. Roedd yr adran hon o'r ymgynghoriad yn amlinellu mai'r dull mwyaf cyffredin o osgoi talu ardrethi yw trefniadau artiffisial i hawlio sawl cylch o ryddhad eiddo gwag. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig pedwar opsiwn i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys newid lefel y rhyddhad, hyd cyfnodau'r rhyddhad a sut mae cysyniad meddiannu wedi'i ddiffinio yn ôl y gyfraith.

***Cwestiwn 12: Yn eich barn chi, pa opsiwn/opsiynau (1-4) i newid rhyddhad ardrethi ar eiddo gwag fyddai'n fwyaf effeithiol i leihau achosion o osgoi talu?***

***Cwestiwn 13: Beth yw'r prif faterion sy'n codi o newid y cyfnod 'ailosod' (fel y nodir yn opsiynau 1 - 3) mewn perthynas â rhyddhad ardrethi ar eiddo gwag?***

***Cwestiwn 14: A oes gennych chi unrhyw sylwadau i'w gwneud am leihau'r rhyddhad ardrethi eiddo gwag i 50% fel y nodir yn Opsiwn 3?***

***Cwestiwn 15: O ran opsiwn 4, a phan fo eiddo'n cael ei feddiannu am gyfnod byr, ydych chi'n cytuno y dylid bodloni meini prawf ychwanegol am hyd y feddiannaeth honno er mwyn bod yn gymwys i gael cyfnodau pellach o ryddhad?***

34. Roedd 14 o ymatebwyr o blith y 22 a oedd wedi mynegi barn yn uniongyrchol wedi dewis opsiwn 3. Opsiwn 2 oedd yr ail ddewis mwyaf poblogaidd, gyda phum ymatebydd o'i blaid.

35. Roedd sawl ymatebydd yn teimlo mai dychwelyd i'r trefniadau a oedd ar waith cyn 2008 fyddai'r peth gorau. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn cyd-fynd ag opsiwn 3, oherwydd eu bod yn teimlo mai hwn oedd yr opsiwn agosaf a oedd ar gael.

36. Roedd yr opsiwn arfaethedig o gynyddu'r cyfnod 'ailosod' o 42 diwrnod yn opsiynau 1, 2 a 3 yn cael ei ystyried yn rhywbeth a allai ddigalonni'r rheini sy'n talu ardrethi o bosibl, a byddai'n anfanteisiol i'r rheini sy'n rhedeg busnesau tymhorol. Dywedodd un ymatebydd y byddai ymestyn y cyfnod ailosod yn ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol gasglu'r wybodaeth angenrheidiol.

37. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn credu bod gostwng yr ardrethi eiddo gwag a oedd yn cael eu codi o 100% i 50% fel oedd yn cael ei awgrymu yn opsiwn 3 yn deg, ac y byddai hyn yn lleihau'r cymhelliant i ymgymryd â gweithgarwch osgoi. Dywedodd sawl ymatebydd y gallai, ar y llaw arall, gael effaith niweidiol ar yr arenillion ardrethi cyffredinol a lleihau’r cymhelliant i ddefnyddio eiddo unwaith eto.

38. I raddau helaeth, roedd yr ymatebwyr yn gwrthwynebu’r cynnig o gael rhagor o feini prawf ar gyfer rhyddhad, fel oedd yn cael ei awgrymu yn opsiwn 4. Dywedodd nifer y gallai newid y ddeddfwriaeth gael effaith negyddol ac y byddai diffinio’n union beth fyddai ei angen yn y ddeddfwriaeth honno yn anodd.

39. Nododd yr ymatebwyr fwy o waith gweinyddol i awdurdodau lleol o ganlyniad i hynny hefyd.

***Cwestiwn 16: Beth yw eich barn am gadw, tynnu neu newid y darpariaethau deddfwriaethol sy’n esemptio eiddo gwag rhag ardrethi pan fo’r sawl sy’n talu’r ardrethi yn elusen neu'n Glwb Chwaraeon Amatur Cymunedol, a’r eiddo, pan fydd yn cael ei ddefnyddio nesaf, yn debygol o gael ei ddefnyddio’n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol?***

***Cwestiwn 17: A oes unrhyw opsiynau eraill a allai leihau'r math yma o osgoi?***

40. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn credu na ddylid newid y ddarpariaeth mewn achosion dilys. Ond roedd rhai o’r ymatebwyr yn credu nad yw’r ddeddfwriaeth yn gweithredu fel y’i bwriadwyd hi yn wreiddiol ar hyn o bryd, ac efallai bod angen newid i sicrhau ei bod yn mynd i'r afael â’r mater yn briodol mewn achosion nad ydynt yn ddilys.

41. Roedd pedwar ymatebydd o’r farn y dylid gadael i’r Comisiwn Elusennau oruchwylio’r mater hwn, yn hytrach na bod Llywodraeth Cymru yn ymyrryd yn uniongyrchol. Roedd rhai o’r ymatebwyr yn teimlo bod y Comisiwn Elusennau wedi bod yn weddol lwyddiannus yn lleihau neu’n mynd i’r afael ag achosion o osgoi a chamddefnyddio rhyddhadau ymhlith elusennau. Ond roedd un ymatebydd yn awgrymu y gallai fod yn fwy llym wrth ddelio ag achosion o'r fath.

42. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnal ymchwil pellach er mwyn cael amcan o i ba raddau y mae yna achosion o osgoi yn y dull hwn. Roedd ymatebydd arall yn awgrymu y dylai’r esemptiad ar gyfer eiddo gwag gael ei newid i uchafswm hawl o 12 mis.

43. Dywedodd un ymatebydd y dylid cyflwyno anghydfodau ynghylch rhyddhadau ac atebolrwydd gerbron Tribiwnlys Prisio yn hytrach na'r Llys Ynadon, er mwyn lleihau'r costau a'r baich gweinyddol ar Awdurdodau Lleol.

**Camddefnyddio rhyddhad elusennol gorfodol**

44. Roedd yr adran hon yn gofyn am farn ynghylch ffyrdd o leihau'r arfer o sefydlu elusennau ffug neu anonest er mwyn helpu'r sawl sy'n talu ardrethi i hawlio rhyddhad.

| |
|---|
| ***Cwestiwn 18: A allai Llywodraeth Cymru a/neu awdurdodau lleol ddilyn unrhyw fesurau ychwanegol er mwyn sicrhau bod achosion o osgoi rhyddhad ardrethi elusennol gorfodol yn digwydd yn llai aml?*** |

45. Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sylw pellach i'w roi i'r cwestiwn hwn, neu ni wnaethant gyflwyno unrhyw awgrymiadau penodol. Nid oedd rhai yn ymwybodol bod y math hwn o osgoi ardrethi yn digwydd mor aml, neu nid oeddent yn credu hynny.

46. Dywedodd un ymatebydd y dylid diwygio'r rheoliadau er mwyn dileu'r ymadrodd 'pan fydd yn cael ei feddiannu nesaf' gan fod hyn yn creu man gwan y gellir ei gamddefnyddio.

47. Roedd sawl ymatebydd yn teimlo y dylid canolbwyntio ar system effeithiol ar gyfer monitro a rhoi gwybod am elusennau anghyfreithlon, er mwyn helpu i ganfod achosion o osgoi a chamddefnyddio rhyddhad ardrethi.

48. Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai awdurdodau lleol herio achosion o feddiannu gan elusen os yw'n ymddangos bod y rhyddhad yn cael ei hawlio'n anonest.

49. Awgrymodd un ymatebydd y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd brofi bod angen yr eiddo dan sylw, a sicrhau bod yr eiddo yn unol â'r defnydd arfaethedig.

50. Cynigiodd un ymatebydd y dylid cymell busnesau mwy cyfoethog i roi 1% o incwm eu busnes i elusennau lleol. Fodd bynnag, mae'r cynnig hwn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad.

**Rheolau Cyffredinol ar Atal Osgoi**

51. Roedd yr adran hon o'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch creu rheol gyffredinol ar atal osgoi ar gyfer ardrethu annomestig yng Nghymru. Mae rheol

gyffredinol ar atal osgoi yn bodoli ar gyfer y trethi sydd newydd gael eu datganoli; Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi

***Cwestiwn 19: A yw'n briodol sefydlu Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi yng Nghymru a fyddai'n galluogi awdurdodau i ddal rhyddhadau ac esemptiadau yn ôl os yw'r awdurdodau'n gallu dod i'r casgliad rhesymol mai prif bwrpas trefniadau'r sawl sy'n talu ardrethi yw osgoi ardrethi annomestig?***

***Cwestiwn 20: Beth yw'r materion allweddol y byddai angen eu hystyried wrth sefydlu Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru?***

52. Roedd 19 o'r 36 o ymatebion a gafwyd o blaid cyflwyno Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi (GAAR). Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod hyn yn ddull synhwyrol, ond cynigiodd rhai ragor o sylwadau ynghylch sut yn union y byddai'r rheol hon yn cael ei mynegi a'i rhoi ar waith. Roedd y rheini a oedd o blaid yn credu y byddai GAAR yn helpu i fynd i'r afael ag osgoi. Dywedodd un ymatebydd fod y cynnig yn unol ag Adolygiad Barclay ac y byddai'n helpu i gael gwared â mannau gwan yn y broses.

53. Y pryder mwyaf cyffredin a oedd gan y 17 a oedd yn erbyn y cynnig oedd y posibilrwydd o alluogi awdurdodau lleol i wrthod rhyddhad ac esemptiadau mewn ffordd anghymesur, yn ogystal â chyflwyno rhagor o reolau pan oeddent yn credu bod digon o bwerau i fynd i'r afael ag osgoi yn bodoli'n barod yn y ddeddfwriaeth.

54. Ychydig o ymatebwyr a atebodd gwestiwn 20. Ond, roedd y rheini a wnaeth yn mynegi awydd cryf i'r rheini sy'n talu ardrethi gael yr hawl i apelio. Roeddent yn mynegi pryder y gallai peidio â gwneud hynny arwain at yr awdurdod bilio yn camddefnyddio'r system. Awgrymodd un ymatebydd y dylid gwahaniaethu rhwng efadu ac osgoi.

**Mesurau anneddfwriaethol i leihau achosion o osgoi**

55. Roedd yr adran hon yn gofyn am farn ynghylch unrhyw ffyrdd eraill o leihau achosion o osgoi ardrethi.

***Cwestiwn 21: Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno cael eich barn am y modd y gellid cefnogi awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i gynnal ymchwiliadau a lleihau ymddygiad osgoi.***

56. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn dweud bod diffyg rhannu gwybodaeth yn ddigonol yn rhwystr sylweddol wrth fynd i'r afael ag achosion o osgoi. Awgrymodd nifer y byddai creu porth rhannu data rhwng awdurdodau lleol a chyrff fel CThEM a'r VOA yn helpu i fynd i'r afael yn well ag achosion o osgoi ardrethi.

57. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo y dylai awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ymgysylltu mwy â'r rheini sy'n talu ardrethi a dilyn dull fesul achos unigol ar y cyd â mudiadau yn y trydydd sector.

58. Awgrymodd un ymatebydd y dylid gwella sut mae adnabod ac asesu eiddo nad ydynt ar y rhestr ardrethi.

**Y Gymraeg**

***Cwestiwn 22: Hoffai Llywodraeth Cymru gael eich barn am yr effaith y byddai'r cynigion hyn yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:***

***i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a***

***ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.***

***Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?***

***Cwestiwn 23: Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig fel ei fod yn cael:***

***i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a***

***ii) sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.***

59. Nid oedd unrhyw ymatebwr wedi cyfeirio at unrhyw effaith ar y Gymraeg. Roedd un ymatebydd wedi dweud y dylai unrhyw bolisi a gyflwynir o ganlyniad i'r cynigion nodi y dylid glynu at unrhyw ddewis iaith sy'n hysbys, ac os nad yw'r dewis iaith yn hysbys, y dylid defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.

## Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

| Enw’r ymatebydd neu’r sefydliad |
|---|
| Dienw |
| Dienw |
| Dienw |
| Dienw |
| Diane Paul |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Altus Group |
| Cyngor Môn |
| Cymdeithas Siopau Cyfleustra Cyfyngedig |
| Avison Young |
| Bircham Dyson Bell |
| Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain |
| Cyngor Caerffili |
| Cyngor Caerdydd |
| Cymdeithas Cyfraith Elusennau |
| Grŵp Treth Elusennau |
| Colliers International |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru) |
| Daniel Watney LLP |
| Deloitte |
| Destin Solutions |

| |
|---|
| Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Cyngor Sir y Fflint |
| General Plastics |
| Gerald Eve LLP |
| GL Hearn |
| Cyngor Gwynedd |
| Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw |
| Matthews & Goodman LLP |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |
| Cyngor Sir Penfro |
| Cymdeithas y Syrfewyr Prisio |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Dewi Loveluck |
| Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau Cymru (Cadeirydd) |
| Dŵr Cymru |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |